



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
31 Mawrth 2017



yn ymgorffori

Trechu Trosedd



Gwobrau Rhaglenni Cymunedol
Ail yn y categori Plismora a Phlant 2015

the **Howard League** for **Penal Reform**

Community Programmes Awards
Policing and Children Runner-up 2015

Cynnwys

Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol	2
Adroddiad y Cadeirydd	3
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr	5
Adolygiad Gweithgarwch	6
Datganiad Cyfrifoldebau'r Tmddiridolwyr	11
Datganiad Gweithgarwch Ariannol	12
Mantolen	13
Nodiadau ar y Cyfrifon	14
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.....	19

Atodiadau

Cronfa Grantiau Bychan	20
Grantiau ar gyfer Prosiectau Mawr	26
Eich Cymuned, Eich Dewis	27
Ymgyrch B.A.N.G. Tachwedd 2015	28
Grantiau Trechu Trosedd Clwyd	30
Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd	31
Diolchiadau	32



Aelodau'r Bwrdd o Ymgynghorwyr Proffesiynol

Cadeirydd

David W. Williams MBE, DL

Bwrdd o Ymddiriedolwyr

David Catherall DL

Henry Fetherstonhaugh, OBE, Arglwydd Raglaw Clwyd

E.F. Lloyd Fitzhugh OBE, OStJ, JP, DL

David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus)

Paul Hinchliffe

Patricia Hughes DL

Y Foneddige Janet Jones JP, DL

Trefor Jones CBE, CVO

Mark Polin QPM, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Steve Thomas, Swyddog Gweithredol Materion Llywodraethol, Airbus UK

James O'Toole, Uchel Siryf Clwyd (Ex-officio 01/04/15 i 31/03/16)

Dr Peter Harlech Jones, Uchel Siryf Gwynedd (Ex-officio 01/04/15 i 31/03/16)

Rheolwr y Prosiect / Cydlynnydd Trechu Trosedd

D.V. Evans

Gwirfoddolwr

Ashley Harding

Eiddo

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ

Bancwyr

HSBC Bank PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2SF

Archwilydd Annibynnol

Cyfrifwyr Siartredig Gardners, Tŷ Brynffordd, 21 Stryd Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7RD

Adroddiad y Cadeirydd

Yr wyf yn falch o allu cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, fy mhumed fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr. Yr wyf yn gobeithio fod yr adroddiad yn arddangos y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei gynorthwyo ledled gogledd Cymru drwy Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned a'n partneriaid.

Yn 2016 gwnaethom groesawu ein Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru newydd sef Arfon Jones. Mae'n bleser gweithio'n agos gyda'i dim ar fentrau amrywiol, gan gynnwys rheoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu. Roeddem unwaith eto yn falch o barhau gyda'n cymorth ar gyfer gweinyddu 'Eich Cymuned, Eich Dewis', sef enghraifft wych o brosiectau cymunedol yn cael y cyfle i gael mynediad at arian a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w hymdrechion.



Eleni gwelwyd y nifer uchaf erioed o bobl yn pleidleisio am arian "Eich Cymuned, Eich Dewis". Pleidleisiodd dros 10,000 a arweiniodd at bymtheg

o grwpiau cymunedol yn derbyn cyllid i gynorthwyo'u gwaith gwerthfawr. Yr oeddwn yn falch iawn o fynychu seremoni ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru fis Ionawr eleni pan gyflwynwyd sieciau i gynrychiolwyr bob grŵp. Roedd yn wych cwrdd â'r grwpiau llwyddiannus a chlywed dros fy hun am yr effaith positif fydd y cyllid hwn yn ei gael arnynt.

Ers ei gychwyniad yn 2013 mae 'Eich Cymuned Eich Dewis' wedi buddsoddi dros £160,000 i'n cymunedau o arian Deddf Enillion Trosedd a Chronfa Comisiynwyr Trosedd. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer cyllid 2017 ac mae PACT yn edrych ymlaen at chwarae rôl arwyddocaol eto wrth weithredu dewis y bobl.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'n rhwydwaith o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu sy'n parhau i'n hysbrydoli ni gyda'u syniadau a cheisiadau cyllid drwy ein Cronfa Grantiau Bychain. Gallwch weld o'r rhestr eang o grantiau a wnaed eleni cymaint maent yn ymgysylltu gyda'u cymunedau a'r gwaith gwerthfawr maent yn ei wneud. Roeddwn yn falch cymaint ohonynt yn cael eu cydnabod gan ein Uwch Siryfion yn nosweithiau gwobrau Gwynedd a Chlwyd eleni. Mae'n bleser i PACT weithio gyda'r grŵp ymroddedig hwn o swyddogion.

Fis Medi cefais y cyfle i weld rhywfaint o'r gwaith hwn dros fy hun pan ymwelais ag Arolygydd Simon Kneale a'i dîm yn Wrecsam. Ynghyd â Dave Evans, Rheolwr yr Ymddiriedolaeth, gwelais dros fy hun y problemau mae Timoedd Plismona

Cymdogaethau Diogelach yn eu hwynebu. Gwelais hefyd y gwaith maent yn ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain a mynd ati i weithio gyda sefydliadau a thrigolion lleol.

O ganlyniad i hyn a'r adborth yr oeddwn yn gallu ei roi i'm cyd-ymddiriedolwyr, roeddem yn gallu cynorthwyo Simon a'i dîm gyda grant i'w galluogi cynnal gwaith ychwanegol yn Wrecsam. Roedd hyn yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd 'Llosgi'ch Dyfodol' er mwyn lleihau llosgi bwriadol a Crimestoppers a welsoch efallai ar Newyddion ITV Cymru.

Mae ymgysylltu gyda'n pobl ifanc yn parhau i ffurfio elfen hanfodol i'n gwaith. Yn dilyn y thema lleihau llosgi bwriadol, yr ydym yn parhau gyda'n gwaith gyda Thîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/Heddlu Gogledd Cymru. Yr ydym yn cyflwyno'r Ymgyrch B.A.N.G (Be A Nice Guy) flynyddol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc. Yn 2016, cynhaliodd dros 40 o SCCH brosiectau yn trin peryglon a chanlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnau tanau bwriadol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc.

Cynorthwyodd yr ymgysylltiad hwn yng ngostyngiad cynnau tanau'n fwriadol bob blwyddyn 45%. Gwelwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ei lefel isaf dros y cyfnod hwn ers 2012.

Mae Cronfa Ieuenctid Trechu Trosedd yr Uwch Siryfion, a reolir drwy PACT, wedi cynorthwyo dros



Adroddiad y Cadeirydd

1,000 o bobl ifanc eleni. Yr wyf i a'm cydymddiriedolwyr yn diolch i Jim O'Toole yng Nghlwyd a Dr Peter Harlech Jones yng Ngwynedd am y cymorth maent wedi'i roi i bobl ifanc yn ystod eu blwyddyn yn y swydd. Yr wyf i'n gwybod eu bod wedi gweithio'n hynod galed i gynorthwyo eu Cronfa Ieuenctid Trechu Trosedd a diolchaf iddynt am eu hamser gwerthfawr fel aelodau o fwrdd PACT yn rhinwedd eu swydd. Fel Cadeirydd, hoffwn ddatgan fy niolch yn ysgrifenedig i'm cydymddiriedolwyr am eu hymroddiad a diwydrwydd wrth gynorthwyo PACT drwy gydol y flwyddyn.

Gweithiodd 'Cyfiawnder mewn Diwrnod' gyda thros 800 o bobl ifanc yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2017, gan drin themâu sy'n cynnwys ymosodiadau, defnyddio sylweddau seicoweithredol, yfed o dan oed, defnydd anghyfreithlon o ddelweddau noeth a throsedd cyllyll. Mae'r rhaglen hon, nawr yn ei seithfed flwyddyn, yn parhau i gyflwyno neges hynod effeithiol am ganlyniadau trosedd i bobl ifanc. Uchafbwynt rhaglen eleni oedd y cyfle i broffilio'r prosiect gydag ysgolion yng Nghaerdydd a'r Amwythig. Yr wyf yn hynod ddiolchgar i'n holl bartneriaid sef Theatr Clwyd, llysoedd ac ynadon a'n cyllidwyr ar y cyd sef Sefydliad ScottishPower am gynorthwyo gwneud y prosiect partneriaeth hwn yn llwyddiant cryf ac amlwg.

Mae gweithio mewn partneriaeth effeithiol – un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd presennol – yn parhau i fod yn gymhellwr allweddol

i ymddiriedolwyr a'r holl waith a wnawn. Gyda hyn mewn golwg, trefnais Frecwast Busnes ym mis Rhagfyr 2016 a oedd yn cynnwys Arfon Jones y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Ditectif Ringyll Peter Jones o Dim Trosedd Seibr Heddlu Gogledd Cymru. Mynychodd dros 70 o arweinwyr busnes y digwyddiad boreol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Quays yn Neganwy. Clywsant am flaenoriaethau a phroblemau presennol a wynebier gan yr heddlu ac yn benodol am y gwaith sy'n cael ei gynnal i warchod a'n haddysgu i gyd am beryglon trosedd seibr.

Bydd hwn yn parhau i fod yn faes ffocws i Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau ein bod yn ceisio dal i fyny â chyflymder datblygiad technolegol sydd o hyd yn cynyddu. Daliwn hefyd i fyny â'r peryglon cysylltiedig a chadw pobl yn ddiogel rhag niwed. Mae gennym ffocws penodol ar gadw pobl ifanc yn ddiogel mewn amgylchfyd sy'n heriol ac mewn fflwcs parhaus.

Mae fy niolch cywiraf yn mynd i Heddlu Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl Mark Polin. Mae Mark a'i uwch gydweithwyr yn rhoi arweiniad arbenigol ar strategaeth i Ymddiriedolwyr. Rhoir arweiniad hefyd ar ddatblygiad parhaus PACT ac wrth ystyried ac asesu ceisiadau grant. Yr ydym hefyd yn falch fod ein perthynas gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i dîm yn parhau i dyfu a datblygu. Yr ydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth gref i PACT. Fel Ymddiriedolwyr, yr ydym yn benderfynol o weithio'n agos â hwy yn y nod cyffredinol o gyflawni amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae fy niolch yn mynd i Dave Evans, ein Rheolwr Prosiect. Mae unrhyw lwyddiant mae PACT wedi gallu ei gyflawni yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'i sgiliau, brwdfrydedd a gwaith caled. Fel Cadeirydd ac ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, cofnodwn ein diolch gwerthfawrogol.

Ni allaf adael i'm hadroddiad gloi heb ddiolch i un o'n Hymddiriedolwyr gwreiddiol, Trefor Jones, y gwnes ei olynu fel cadeirydd yn 2012. Mae Trefor wedi penderfynu ymddeol o'r bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae wedi bod yn ymddiriedolwr ers cychwyn PACT yn 1998. Treuliodd Trefor bedair blynedd fel ein Cadeirydd. Drwy gydol ei gyfnod gyda PACT, mae ei gyfoeth o wybodaeth a phrofiad wedi'u gwerthfawrogi'n fawr gan ein holl ymddiriedolwyr dros y blynyddoedd. Mae gennym barch mawr tuag at Trefor a thra y'i collir yn fawr, yr wyf i a'm cydymddiriedolwyr yn dymuno ymddeoliad hapus iddo ef a'i wraig Shirley.



David W. Williams MBE, DL
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Mai 2017

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno'u hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017.

Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllaw a gynhwysir yng nghanllaw cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth. Maent wedi gwneud hefyd wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a gosod y polisi gwneud grantiau ar gyfer y dyfodol. Ym mhob gweithgarwch, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio codi proffil Diogelwch Cymunedol. Drwy warchod pobl ac eiddo, mae'n lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol gan felly gwella ansawdd bywyd drwy gydol y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd.
- Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd trigolion Gogledd Cymru drwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu trigolion Gogledd Cymru ym mhob mater sy'n berthnasol i gamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill gan felly gynorthwyo lleihau troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Datblygu rhaglenni addysgiadol er budd pobl ifanc ac eraill.

Cyfansoddiad

Cafodd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ei lansio ar 14 Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

Dogfennau Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei Llywodraethu gan y Datganiad o Ymddiried (Gweithred Ymddiried) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad o Ymddiried, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, y sector gwirfoddol, y sector busnes, ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

Eiddo

Fe ymgwymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfa ganlynol:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd
Cymru a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanellwy
Llanellwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn y Datganiad o Ymddiried fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed Cronfeydd wrth Gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiried gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £500,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn uwch na hyn yna byddai angen Archwiliad llawn.



Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Wrth gyflawni ei holl weithgareddau mae PACT yn ymdrechu i gefnogi amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle diogelach fyth i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu

Mae Ymddiriedolwyr PACT yn parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa Deddf Elw'r Heddlu yn cynnwys arian y mae'r Heddlu wedi'i gael o werthu eiddo a ddarganfuwyd ac eiddo a atafaelwyd yn dilyn gorchymyn llys. Prif nod y gronfa ydi cefnogi prosiectau lleol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau gwirfoddol/elusennol ac sydd er budd cymunedau Gogledd Cymru yn unig.

Mae arian Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu yn caniatáu PACT gefnogi swyddogion a chymunedau lleol.

Mae ein Cronfa Grantiau Bychan yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg Timau Plismona'r Gymdogaeth. Erbyn hyn mae'r Gronfa, sy'n caniatáu i swyddogion wneud cais am grant o hyd at £250.00, yn ei 13eg blwyddyn. Dros y cyfnod hynny mae'r gronfa wedi caniatáu i PACT

fuddsoddi dros £200,000 mewn prosiectau lleol i gynorthwyo swyddogion ymgysylltu â'u cymunedau.

Mae rhestr lawn o'r prosiectau hyn, a'r Grantiau Bychan i'w gweld yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynnyddol.

Cyfiawnder mewn Diwrnod



Unwaith eto mae glaslanciau wedi cael mewnwelediad anhygoel i'r system gyfiawnder ieuenctid drwy theatr ac addysg drwy ein prif brosiect 'Cyfiawnder mewn Diwrnod'. Mae hon yn bartneriaeth unigryw rhwng Theatr Clwyd a'r Ymddiriedolaeth Heddlu a Chymuned.

Eleni mae'r cynllun, a noddir yn rhannol gan Sefydliad ScottishPower, yn cynnwys 50 o ysgolion ledled gogledd Cymru yn tynnu sylw at broblemau presennol sy'n effeithio pobl ifanc ac effaith myned i'r system cyfiawnder troseddol.

Am y tro cyntaf ers i'r prosiect gael ei greu saith mlynedd yn ôl, roeddem yn gallu mynd ag ef i ysgolion yng Nghaerdydd a'r Amwythig. Roedd hyn er mwyn creu effaith parhaol gyda hyd yn oed mwy o bobl ifanc, gyda'r nod o'u hatal rhag mynd i lawr trywydd troseddeg.

Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn cynnwys cyfres o weithdai gydag actorion proffesiynol yn cyfranogi mewn diwrnod rhyngweithiol gyda myfyrwyr ysgol uwchradd sydd ym mlynnyddoedd wyth a naw.

Arweiniwyd y prosiect unwaith eto bob dydd gan Emyr John a pherfformiwyd gan yr actorion proffesiynol Bethany Gwyn, Dion Lloyd Jones a Morgan Rees-Davies. Mae'n dilyn cymeriad o'r enw Connor o'r cyfnod cyn iddo gyflawni trosedd, hyd at ei arestiad, prawf, carchariad a'r canlyniadau i'w deulu a'i ffrindiau a'r dioddefwr.

Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn fwriadol uniongyrchol a digyfaddawd yn ei agwedd. Rho sail i bobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y dewisiadau a gyflwynir iddynt, a'r effaith gall gwneud penderfyniad anghywir ei wneud. Yr ydym unwaith eto wedi cael cymorth gan lysoedd lleol yn Yr Wyddgrug, Wrecsam, Prestatyn, Llandudno, Caernarfon a Llangefni. Yr ydym hefyd wedi cael cymorth gan ynadon sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ymgynghori'r ddedfryd a datgan y ddedfryd ar y prif gymeriad.

Dywedodd Emyr John: "Bob blwyddyn ceisiwn wneud pethau'n wahanol. Felly gan ddibynnu ar beth sy'n effeithio pobl ifanc ar y pryd, dyna gyda beth y gweithiwn. Mae rhaid i chi ei gadw'n gyfredol a gweithiwn yn agos gyda'n swyddogion heddlu lleol sy'n dda iawn am ddweud wrthym am ba broblemau maent wedi bod yn eu trin gyda phobl ifanc yn yr ardal.

Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

“Ceisiwn siarad â chymaint o bobl ag y gallwn i gadw pethau’n berthnasol. Mae’r prosiect yn ffordd wych o hysbysu pobl mai dyma sut mae’r system cyfiawnder troseddol yn gweithio.”

Eleni ymunodd David Hanson AS â ni yn yr Wyddgrug: “Mae’n gynllun da iawn i ddangos i bobl ifanc am ganlyniadau gweithgarwch troseddol. Mae’r prosiect yn anelu cynorthwyo pobl ifanc ddeall nad yw’n gêm a bod gan drosedd ganlyniadau go iawn. Mae problemau fel gyrru negeseuon testun rhywiol yn rhywbeth a all ddinistrio’u bywydau yn y diwedd.”

‘Eich Cymuned, Eich Dewis’

Eich Cymuned Eich Dewis

Cefnogi prosiectau sy’n lleihau
trosedd ac ymddygiad
gwrthgymdeithasol.

“Troseddwyd ar eu colled, Cymunedau ar eu hennill”

Cafodd Cronfa Eich Cymuned Eich Dewis ei sefydlu gan Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned. Caiff ei hariannu ar y cyd gan arian a gafodd ei adennill drwy’r Ddeddf Elw Troseddau. Defnyddir arian a atafaelwyd gan droseddwyd gyda’r gweddill yn cael ei roi yn dod o Gronfa’r Comisiynydd Heddlu.

Dyweddodd Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: “Mae atafaelu’r arian y mae troseddwyd wedi’i gael o droseddau yn anfon neges ardderchog allan nad yw trosedd yn talu a bod yr arian yn cael ei ddychwelyd i gymunedau i wneud yn iawn am y difrod sydd wedi’i achosi gan weithgareddau troseddol. Yn y bôn, rydym yn troi rhywbeth negatif yn rhywbeth positif drwy wella ansawdd bywyd unigolion sy’n byw yn ein cymunedau. Mae’r arian yn mynd i rywle lle bydd yn gwneud gwahaniaeth a bydd yn cynorthwyo lleihau trosedd a gwella ansawdd bywyd unigolion sy’n dioddef y drosedd.”

Gwnaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Debicki atgyfnerthu hyn a ddywedodd wrthym: “Mae’n beth da iawn fod grwpiau cymunedol yn gallu cael mynediad i gronfeydd arian er mwyn iddynt allu lleihau trosedd ac anhrefn yn eu cymunedau a gwella ansawdd bywyd unigolion yn yr ardal. Mae’n anfon neges bositif allan bod yr arian sy’n cael ei dynnu o bocedi troseddwyd yn cael ei ailgylchu. Mae hyn yn troi arian drwg yn arian da ac mae’n cael ei ddefnyddio at ddiben adeiladol. Yr ydym yn gwerthfawrogi’r berthynas sydd gennym â’r cyhoedd ac yr ydym yn cydnabod na allwn leihau trosedd ac anhrefn ar ein pen ein hunain. Mae’n bartneriaeth ac yn ymdrech gyfunol ag asiantaethau eraill ond y cyhoedd eu hunain sy’n bwysig ar ddiwedd y dydd. Yn aml

iawn y cyhoedd sy’n gwybod beth fydd yn gweithio orau yn eu hardal nhw ac mae’r ffaith eu bod yn gallu defnyddio pot o arian yn rhywbeth positif dros ben.”

Dyweddodd David Williams, Cadeirydd PACT: “Yr ydym yn falch y gallwn, unwaith eto, gynorthwyo wrth weinyddu’r gronfa hon. Credaf fod ein hawl i roi grantiau ledled Gogledd Cymru, o’r gorllewin i’r dwyrain, yn gyrru neges gref i gymunedau i gael gafael ar yr arian hwn. Mae yno iddynt hwy. Mae’n addas iawn mai un o’r amodau ydi fod rhaid i’r bobl sy’n ymgeisio am yr arian hwn fod yn gwneud rhywbeth i drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu i daclo trosedd ac anhrefn mewn rhyw ffordd.”

Mae’r gronfa yn awr yn ei phedwaredd flwyddyn. Ers 2013 mae wedi cynorthwyo 54 o brosiectau ledled gogledd Cymru gyda grantiau dros £160,000.

Eleni gwnaethom dderbyn y nifer uchaf o bleidleisiau erioed gan y cyhoedd sef 10,000. Mae’n amlwg fod y gronfa hon yn cael effaith bositif mewn cymunedau lleol.

Ceir rhestr lawn o enillwyr y wobwr yn yr Atodiad.



Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

YMGYRCH BANG (Be A Nice Guy)



Ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Lleihau Tanau Bwriadol yr ydym unwaith eto wedi ymuno i holi pobl i 'Be a Nice Guy'. Mae grantiau ar gael drwy Ymgyrch BANG er mwyn cynorthwyo mentrau lleol sy'n trin cynnwau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc.

Drwy weithio gyda phartneriaid lleol fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac awdurdodau lleol, yr ydym yn gallu hyrwyddo negeseuon allweddol drwy'r fenter 'Be a Nice Guy'. Mae wedi'i nodi fod yr agwedd hon, ynghyd â gweithgareddau dargyfeirio wedi'u targedu sy'n ymgysylltu pobl ifanc mewn digwyddiadau hwyliog ac adloniannol, yn gallu bod yn effeithiol iawn. Sicrhewr y gall pawb fwynhau eu hunain yn ddiogel.

Drwy ogledd Cymru i gyd yn 2016 trefnwyd amrywiol weithgareddau Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc gan Dimoedd Plismona Cymdogaethau Diogelach ar y cyd â phartneriaid allweddol, er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi derbyn cymorth ariannol gan y Tîm Llosgi Tanau Bwriadol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Heddlu a'r Gymuned (PACT).

Gweithiodd Swyddogion Heddlu Cymuned yr Ysgol gyda phobl ifanc mewn ysgolion a chlybiau ieuencid ynghylch sut gall eu hymddygiad effeithio eraill. Atgoffwyd hwy i gadw'u hunain yn ddiogel os ânt i chwarae cast neu geiniog.

Dywedodd Arolygydd Julie Sheard sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Diogelwch Cymunedol yr Heddlu: "Mae timoedd plismona lleol ledled Gogledd Cymru yn gweithio'n agos â'u cymunedau er mwyn sicrhau gall y rhai hynny sydd eisieu cael hwyl ar Galan Gaeaf barhau i wneud hynny heb gynhyrfu neb.

"Unwaith eto yn 2016, gweithiasom mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gadw pobl yn ddiogel a sicrhau na faeddyd cyfnod cyffrous a hwyliog gan y lleiafrif. Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, yr ydym hefyd yn annog trigolion i fynychu arddangosfeydd tân gwyllt trefnedig."

Dywedodd Terry Williams, Pennaeth Diogelwch Cymunedol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: "Bob blwyddyn, mae pobl ddirifedi yn cael eu hanafu a'u llosgi'n ddrwg cyn tymor Noson Guto Ffowc wrth gynnau coelcerthi a thanio tân gwyllt. Mae digwyddiadau cymunedol trefnedig

yn Ngogledd Cymru yn bendant yn rhoi'r gwerth am arian gorau am adloniant. Mae hefyd yn sicrhau nad oes angen i deuluoedd greu perygl drwy gynnal coelcerth a phartion tân gwyllt yn yr ardd gefn.

Yn 2016 roeddem yn gallu cynorthwyo dros 40 o fentrau dan arweiniad Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu a ymgysylltodd gyda thros 1,000 o bobl ifanc.

Ceir rhestr lawn o SCCH a'r ardaloedd lle ceir cymorth yn yr Atodiad.

Gweithgarwch Trechu Trosedd 2016/17

trechu trosedd

gogledd cymru

Unwaith eto mae ein Uchel Siryfion wedi bod yn cydnabod gwaith pobl ifanc sydd wedi derbyn grantiau Trechu Trosedd yn ystod y flwyddyn.

Mae Jim O'Toole, Uchel Siryf Clwyd yn 2016/17 wedi bod yn cydnabod gwaith pobl ifanc a gwirfoddolwyr lleol yn ei noson Gwobrau Cymuned a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Theatr Clwyd yn y Wyddgrug.

Roedd enillwyr Gwobr glodfawr Prosiect Trechu Trosedd Clwyd y Flwyddyn eleni yn bobl ifanc o Sorted Sir y Fflint a'u ffilm 'Young, Wild and Free'. Nod y ffilm yw addysgu pobl ifanc o ran y peryglon o ddefnyddio canabis. Dywed 'Young, Wild & Free' hanes sut gall cyffuriau lithro i'ch

Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

bywyd ac yna ei ddefnyddio gan arwain at ddewisiadau bywyd gwael.

Wedi treulio dwy flynedd yn ei gwneud, ariannwyd y ffilm gan Trechu Trosedd, Gwirvol a Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid Sir y Fflint. Hwyluswyd gan Gerddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE. Crëwyd y ffilm fer gan y bobl ifanc sy'n ffurfio Grŵp Llywio Sorted Sir y Fflint, a ysbrydolodd y sgript ac a serennodd yn y ffilm.

Mae tîm Sorted Sir y Fflint wedi bod yn cyflwyno'r ffilm i addysgu yn erbyn atal mewn ysgolion uwchradd ledled y sir, ynghyd â cholegau, unedau cyfeirio disgyblion, clybiau ieuenctid a phrosiectau cymunedol.

Cydnabuwyd y canlynol yng Ngwobrau Clwyd hefyd:

Ysgol Deiniol, Marchwail a enillodd wobwr Trechu Trosedd am eu cynllun e-Gadetaid sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch rhyngwrwyd i bobl ifanc. Fel rhan o'r cynllun hwn, aeth disgyblion i'r ganolfan addysg arobryn yn DangerPoint i ymgymryd â sesiwn bwrpasol ar ddiogelwch rhyngwrwyd i bobl ifanc.

Gyda chyfranogiad a chymorth gweithgar y SCCH Lynne Maurice, mae'r prosiect wedi dangos fod yr heddlu yn cynorthwyo diogelwch ein plant ifanc a bregus i'r gymuned, ysgol, rhieni a phlant yr un modd.

Ysgol Bryn Alyn, Wrecsam a enillodd wobwr Trechu Trosedd Canmoliaeth Uchel am eu prosiect presenoldeb ysgol

Nod y prosiect oedd cynyddu presenoldeb ysgol pobl ifanc penodol sydd, oherwydd eu presenoldeb gwael, yn mynd ynghlwm ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol o fewn y gymuned.

Gan weithio gyda Debbie Barker, Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu, nododd yr ysgol bobl o fewn ein cyfarfodydd bugeiliol ysgol. Nodwyd rhai hefyd fel NEETs (pobl ifanc ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).

O ganlyniad i'r prosiect hwn gwellodd presenoldeb ysgol hanner y bobl ifanc a fynychodd. Cafodd nifer ohonynt 100% o bresenoldeb ar gyfer y rhaglen i gyd. O ganlyniad i lwyddiant y prosiect hwn, mae nawr yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion eraill yn Wrecsam.

Dywedodd Jim O'Toole, Uchel Siryf Clwyd: "Mae wedi bod yn bleser cydnabod gwaith yr holl bobl ifanc hyn a'r oedolion sy'n eu cynorthwyo. Rwyf wedi mwynhau cwrdd â llawer ohonynt tra roeddent yn ymgymryd â'u prosiectau yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd. Mae gallu cynnal y Gwobrau hyn ar ddiwedd fy nhymor yn anrhydedd go iawn i mi.

"Cynorthwya Trechu Trosedd bobl ifanc ddatblygu prosiectau sy'n gwneud eu cymunedau yn le mwy diogel i fyw. Ers 2002, mae Trechu Trosedd yng Nghlwyd wedi buddsoddi dros £90,000 mewn prosiectau sy'n cynorthwyo ein pobl ifanc. Eleni rydym wedi gallu ariannu 19 o brosiectau gyda chyfanswm grantiau yn £7,400. Mae wedi bod yn ffrain gweld llawer o'r prosiectau hyn yn digwydd. Mae wedi bod yn ffrain gweld yr effaith bositif maent yn ei gael ar ein pobl ifanc drosof fy hun."

Yng Ngwynedd dywedodd Dr Peter Harlech Jones, yr Uchel Siryf, yn noson ei Wobrau: "Mae Uwch Siryfion yn chwarae rôl cynyddol weithgar wrth hyrwyddo ystod eang o waith gwirfoddol yn ein cymunedau gyda'n gilydd wrth annog a chyfranogi mewn prosiectau i leihau trosedd. Mae'n anrhydedd gwasanaethu fel Uwch Siryf Gwynedd yn y flwyddyn ddiwethaf. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y penodiad wedi rhoi'r cyfle i mi mewn ffordd fach i gynorthwyo'r nifer o wirfoddolwyr gyda phobl ifanc drwy gydol Gwynedd a Môn, drwy ein cronfa ieuenctid Trechu Trosedd.

"Mae wedi bod yn ffrain i mi gwrdd â chymaint o'r ieuenctid a'r gwirfoddolwyr hyn sy'n rhoi o'u hamser a'u doniau heb unrhyw ddigollediad, ac sy'n wirioneddol yn ysbrydoliaeth i ni gyd."



Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Eleni aeth Prosiect y Flwyddyn Trechu Trosedd Gwynedd at Dîm Heddlu Cymdogaethau Diogelach Caergybi a'u prosiect 'Bod yn Bositif yng Nghaergybi' i gydnabod y gwaith o gynorthwyo pobl ifanc Caergybi. Cydnabuwyd eu gwaith i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal yn sylweddol. Cyfrannodd y prosiect at ostyngiad o 25% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Ynys Môn wrth weithio gyda phobl ifanc mewn cyfres o ymyriadau. Roedd y rhain yn cynnwys addysg cyffuriau/alcohol, diogelwch ffyrdd, byw'n iach a diogelwch ar-lein.

Roedd prosiectau Trechu Trosedd eraill a oedd yn derbyn gwobrau am eu gwaith yn y gymuned yn cynnwys disgyblion o Ysgol Llanllechid a'u prosiect gwrth-fwlio KiVa. Cydnabuwyd eu gwaith yn mynd i'r afael â bwlio a rhoi amgylchfyd ysgol diogel a chyfeillgar.

Drwy dderbyn nawdd o £493 gan Gronfa Ieuentid Trechu Trosedd, mae Ysgol Llanllechid wedi gallu defnyddio'r rhaglen yn llawn drwy gael yr offer angenrheidiol i ddisgyblion gynnwys KiVa. Ceir llawlyfrau canllaw, cardiau rheolau a festiau rheoli egwyl i staff.

Derbyniodd 'Dyddiau Hwyl Haf Coed Mawr' wobwr i gydnabod Davies a'u gwaith amhrisiadwy a wneir mewn partneriaeth â Chanolfan Gymunedol Coed Mawr a SCCH Caraer mwyn cynorthwyo pobl ifanc ym Mangor. Gweithiodd y partneriaid yn effeithiol gyda'i gilydd i adeiladu perthynas gref gyda'r bobl ifanc, eu teuluoedd a gweddill y gymuned.

Cydnabu a thalodd Dr Jones deyrnged i waith Swyddogion Cefnogi'r Heddlu a'r Gymuned sy'n gwneud cymaint o gyfraniad mawr wrth gynorthwyo pobl ifanc gyda'u prosiectau.

Mae unigolyn a wobrwyyd yn cynnwys:

- Rhingyll Iwan Jones a wobrwyyd i gydnabod ei sgiliau arwain a'i agwedd anhunanol i wasanaeth cyhoeddus a roddwyd i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.
- SCCH Carwyn Gilford am ei waith cymunedol ym Mhentraeth ar Ynys Môn.
- SCCH Iwan Roberts a Lona Davenport am eu hymroddiad cyson ac anhygoel i'w cymuned yn ac yng nghyffiniau'r Bala.

Yn ystod ei flwyddyn yn y swydd cododd Dr Jones dros £5,400 i Drechu Trosedd Gwynedd. Codwyd £3,000 o'i Gyngerdd Gala Nadolig a gynhaliwyd yng Nghricieth a gododd £1,000 hefyd i Fad Achub Cricieth.

Os oes gennych syniad da ar gyfer prosiect sy'n cynorthwyo pobl ifanc ac sy'n cynorthwyo gwella cymunedau lleol, cysylltwch â ni at info@TrechuTroseddnorthwales.co.uk

Ceir rhestr lawn o grantiau Trechu Trosedd Clwyd a Gwynedd yn yr Atodiad.



Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae gofyn i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob cyfnod ariannol sy'n rhoi safbwynt gwirioneddol a theg o weithgarwch ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae gofyn iddynt ddilyn arfer gorau a:-

